# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA575 - Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 (Saesneg yn unig)

## Gweithdrefn:

Negyddol

## Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Amgylchedd Dŵr) (Cymru a Lloegr) (OS 2003/3242) 'Rheoliadau 2013' i drosi agweddau ar Gyfarwyddeb 2013/39 o ran sylweddau â blaenoriaeth ym maes polisi dŵr ('Cyfarwyddeb Sylweddau â Blaenoriaeth').

Mae'r Gyfarwyddeb Sylweddau â Blaenoriaeth i hun yn diwygio Cyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol 2008/105, sy'n epil Gyfarwyddeb i Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000/60. Mae'r Gyfarwyddeb Sylweddau â Blaenoriaeth yn nodi ac yn pennu safonau ansawdd amgylcheddol mewn dyfroedd wyneb ar gyfer rhestr o sylweddau â blaenoriaeth a nodwyd o dan y gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i fod yn cynrychioli risg sylweddol i amgylchedd dŵr neu drwy'r amgylchedd dŵr.

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol ar y cyd ar gyfer ardaloedd sy'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr ac yn gyfansawdd fel arall. Maent hefyd yn gwneud diwygiadau amrywiol i Reoliadau 2003.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 (ix) mewn perthynas â'r offeryn hwn: nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

1. Oherwydd eu bod yn rheoliadau cyfansawdd sy'n destun gweithdrefn seneddol San Steffan, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud yn Saesneg yn unig.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**27 Awst 2015**